# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Home Address Ltd**

**Gateway Social Club For Mentally Handicapped**
**Clive Road**
**Abergwaun**
**SA65 9DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Home Address Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Home Address Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers cofrestru ag AGC o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Yn gyffredinol, mae Home Address Ltd. yn ymdrechu i gefnogi pobl fel y dymunant gael eu cefnogi. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn canolbwyntio ar anghenion pob person, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ei lesiant. Mae'r bobl a'u perthnasau yn frwdfrydig am y cymorth y maent yn ei gael, ac yn dweud bod y gweithwyr gofal yn eu cefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir.

## Llesiant

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael gan Home Address Ltd. Mae'r cofnodion gofal yn adlewyrchu anghenion cymorth pob unigolyn yn fanwl, ac mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn. Maent yn cefnogi pob person fel y dymunant, a dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod eu gweithwyr gofal yn garedig, yn ofalgar, yn barchus ac yn broffesiynol yn eu dulliau gweithredu.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn dweud eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad a wneir a'u bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi yn eu cartref, yn bennaf oherwydd eu bod yn gyfarwydd â'r gweithwyr gofal. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i bob person bod ei anghenion a'i ddewisiadau personol yn cael eu deall yn iawn. Dywed y bobl eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod yn hyderus y byddai uwch-aelodau o'r staff yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol pob unigolyn eu diogelu bob amser.

Mae'r darparwr yn cynnig Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ddwyieithog, ac mae rhai dogfennau allweddol ar gael yn Gymraeg os oes angen.

## Gofal a Chymorth

Ar y cyfan, mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael. Mae cofnodion gofal cywir a chyfredol yn disgrifio sut y dylai'r gweithwyr gofal ddarparu cymorth i'r bobl, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar eu cyfer. Mae'r darparwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn rhoi eu trefniadau cymorth ar waith. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan berthnasau yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol fel gweithwyr cymdeithasol a therapyddion lleferydd ac iaith ynghyd â phob asesiad sy'n ymwneud â'r person. Mae’r rheolwr yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cofnodion gofal sy’n disgrifio trefniadau cymorth a gofynion penodol pob person. Er enghraifft, dewisiadau cyfathrebu unigol neu gymorth ar gyfer cyflyrau meddygol penodol. Er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn parhau'n gyfredol, caiff pob cofnod gofal ei adolygu'n rheolaidd, ac yn amlach lle bynnag y bydd anghenion cymorth wedi newid.

Mae polisïau a gweithdrefnau manwl gan y darparwr i reoli'r risg o heintiau. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag heintiau cyn belled ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys monitro pob ymwelydd a'r defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol gan bob gweithiwr gofal. Cadarnhaodd y bobl a'r perthnasau fod arferion hylendid da ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

I'r graddau y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Caiff risgiau i iechyd a llesiant y bobl eu cofnodi'n glir a'u lleihau fel y gall y bobl aros mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Gwnaethant ddweud y byddent yn siarad â'r rheolwr yn y lle cyntaf, ond y byddent yn hyderus i gysylltu ag asiantaethau allanol, megis y tîm diogelu, pe baent o'r farn bod angen gwneud hynny.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i feithrin diwylliant sy'n ymdrechu i sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni i'r bobl. Mae systemau gwirio syml yn monitro llesiant pob person ac ansawdd y cymorth a gânt gan y gweithwyr gofal. Gall y bobl a'u teuluoedd gwblhau arolygon er mwyn rhoi eu barn yn y dyfodol agos: gwelsom ddau ymateb, ac roedd y ddau yn hynod gadarnhaol am y darparwr.

Wrth i ni sgwrsio â'r bobl a'r perthnasau, roeddent yn canmol y gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi, a'r rheolwr yn y swyddfa. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn nodi unrhyw gamau sydd eu hangen i wella llesiant y bobl mewn adroddiadau monitro rheolaidd.

Mae'r cofnodion o'r sesiynau goruchwylio gweithwyr a gynhelir bob tri mis a'r arfarniadau blynyddol yn dangos bod pob gweithiwr gofal yn cael cyfle rheolaidd i drafod unrhyw faterion y mae am eu codi, mewn lleoliad ffurfiol a bod y sgyrsiau'n cael eu cofnodi. Mae craidd o staff sy'n gyfarwydd i'r bobl a'u perthnasau a dywed y gweithwyr gofal eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth y maent yn ei gael.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.Mae'r rhaglen sefydlu staff yn gysylltiedig â 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Er bod cofnodion hyfforddi unigol yn dangos bod y gweithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant hanfodol diweddaraf, mae'r rheolwr yn ystyried system newydd, lle gellir gweld hyfforddiant pawb mewn un lle er mwyn hwyluso'r broses fonitro a nodi pan fo angen diweddaru hyfforddiant unigolion. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael yr holl hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gefnogi'r bobl fel y dylent.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/04/2023